Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Llywodraethu Llinell Sylfaen – Iechyd a Gofal Digidol Cymru


Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2791A2022-23

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau ei hun.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Casgliad a negeseuon allweddol 5

Atodiad 1 7

# Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Gan gydnabod bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gorff GIG newydd a sefydlwyd ym mis Ebrill 2021, cytunwyd i gynnal **adolygiad llywodraethu llinell sylfaen** yn hytrach nag asesiad strwythuredig llawn[1] yn ystod 2021 gyda'r nod o gefnogi datblygiad a dysgu sefydliadol, gan barhau i helpu i gyflawni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.

2 Cynhaliwyd ein gwaith mewn amgylchedd a nodweddir gan yr angen i Iechyd a Gofal Digidol Cymru sefydlu ei hun fel corff iechyd dibynadwy sydd â brand cryf sy'n gweithredu fel sefydliad rhwydweithiol yn y GIG yng Nghymru. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu gwasanaethau busnes fel arfer sydd o ansawdd uchel yn barhaus gan ymestyn ei gylch gwaith yn y dirwedd ddigidol newydd hefyd ochr yn ochr â phartneriaid allweddol.

3 Mae'r amgylchedd iechyd a gofal presennol, ac yn arbennig y gofynion ychwanegol sy'n deillio o'r pandemig, yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru sefydlu trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn. Gall y rhain roi sicrwydd i randdeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i gyflawni amcanion strategol a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

4 Roedd ein hadolygiad llywodraethu llinell sylfaen yn ceisio rhoi barn gynnar ar p'un a yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwneud cynnydd da o ran rhoi trefniadau ar waith i gefnogi llywodraethu da a defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- arweinyddiaeth a llywodraethu;
- trefniadau cynllunio;
- trefniadau ar gyfer rheoli adnoddau (cyllid, asedau, a gweithlu).

5 Roedd ein gwaith yn seiliedig ar adolygiad o ddogfennau perthnasol, arsylwadau rhithwir yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor, a thrafodaethau strwythuredig â Swyddogion Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac Aelodau Annibynnol perthnasol. Ni wnaethom ofyn am sylwadau gan bartneriaid allanol Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn rhan o'r adolygiad.

[1] Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ofyniad statudol i fodloni ei hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio'u hadnoddau fel y nodir yn Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004. Er mwyn helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â gwaith asesu strwythuredig blynyddol ym mhob un o gyrff y GIG, gan archwilio trefniadau sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol, rheolaeth ariannol, cynllunio strategol, a ffactorau eraill sy'n effeithio ar y ffordd y mae cyrff y GIG yn defnyddio eu hadnoddau.

# Casgliad a negeseuon allweddol

6 Yn gyffredinol, canfuom fod **Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran rhoi trefniadau ar waith i gefnogi llywodraethu da a'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau o dan amgylchiadau gweithredu heriol.**

7 O ran arweinyddiaeth a llywodraethu, canfuom y canlynol:

- mae sylfeini cadarn ar waith i gefnogi'r dasg o gynnal busnes y Bwrdd a'r Pwyllgor yn effeithiol ac mae rhagor o waith ar y gweill.
- mae Bwrdd cymharol sefydlog, gyda chyfleoedd gwirioneddol i fanteisio ar brofiadau amrywiol Aelodau Annibynnol y sectorau cyhoeddus a masnachol. Mae cyfleoedd yn bodoli i amrywio cyfansoddiad a phrofiad y Bwrdd ymhellach.
- mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnal rhagolygon a diwylliant newydd, yn enwedig gan ei fod yn ceisio sefydlu ei hun fel 'partner digidol dibynadwy'.
- mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau'n aeddfedu, ac mae dull trefnus o ymdrin â chyfarfodydd i'w weld.
- mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ran bwysig i'w chwarae wrth arwain y system, yn enwedig o ran rheoli gwybodaeth a seiberddiogelwch. Fodd bynnag, mae eglurder ynghylch arweinyddiaeth ac atebolrwydd y ddau faes gweithredu allweddol hyn ymhlith holl bartneriaid Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn hanfodol.
- mae systemau a phrosesau sicrwydd yn cael eu datblygu ac ymddengys eu bod yn rhesymol ac yn gymesur yn y cyd-destun y mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithredu ynddo.

8 O ran trefniadau cynllunio, canfuom y canlynol:

- mae trefniadau cadarn wedi eu gosod yng Nghynllun Blynyddol Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer 2021–22, ac mae'r weledigaeth, yr amcanion strategol a'r galluogwyr ategol wedi eu mynegi'n glir. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith ar ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer y sefydliad.
- ceir tystiolaeth dda bod adnoddau ac egni'n cael eu neilltuo i feithrin cysylltiadau allanol ac i gasglu sylwadau a gwybodaeth wrth i Iechyd a Gofal Digidol Cymru geisio sefydlu ei hun fel 'partner digidol dibynadwy'.
- mae angen i Iechyd a Gofal Digidol Cymru fod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod ei strategaeth, ei gynlluniau, a'i raglenni yn canolbwyntio ar 'ofal' yn ogystal ag 'iechyd'.

9 O ran trefniadau ar gyfer rheoli adnoddau, canfuom y canlynol:

- gwneir cynnydd da i sefydlu systemau a phrosesau ariannol newydd, ac mae'n ymddangos bod y tîm arweinyddiaeth ariannol yn gryfder gweladwy.

- mae dull ystwyth o wario ar raglenni, ond mae angen adolygu'r broses o godi cyllid o gronfeydd rhaglenni a defnyddio tendrau sengl.
- mae'r sefydliad yn wynebu rhai heriau gweithlu, ac mae recriwtio amserol, cadw staff, a chynllunio olyniaeth yn allweddol yng nghyd-destun galw cynyddol am sgiliau digidol a marchnad recriwtio hynod o gystadleuol. Bydd adeiladu ar gynghreiriau strategol allweddol, gan gynnwys Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI), yn helpu i gryfhau capasiti a gallu ymhellach.

10 Nodir ein canfyddiadau'n fanylach yn **Atodiad 1**.

11 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion. Fodd bynnag, rydym wedi nodi nifer bach o gyfleoedd i'r Bwrdd eu hystyried o ran arloesedd a gwelliant. Ceir manylion y rhain yn **Atodiad 1**.

# Atodiad 1

| Trosolwg o'r Archwiliad |
| --- |
| **Y nod**<br><br>Cefnogi datblygiad a dysgu sefydliadol drwy roi barn gynnar ar p'un a yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwneud cynnydd da o ran rhoi trefniadau ar waith i gefnogi llywodraethu da a defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.<br><br>**Meysydd ffocws**<br><br>• Arweinyddiaeth a llywodraethu<br>• Trefniadau cynllunio<br>• Trefniadau ar gyfer rheoli adnoddau (cyllid, asedau, gweithlu)<br><br>**Dull**<br><br>Rydym wedi ceisio mabwysiadu dull anffurfiol o weithredu fel cyfaill beirniadol er mwyn tynnu sylw at yr hyn sy'n mynd yn dda, beth sydd angen mwy o waith, a rhannu arferion da. Ein hasesiad ein hunain o gynnydd yw hwn – nid ydym wedi gofyn am sylwadau gan bartneriaid allanol Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn rhan o'r adolygiad. |

## Casgliad cyffredinol

**Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran rhoi trefniadau ar waith i gefnogi llywodraethu da a'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau o dan amgylchiadau gweithredu heriol.**

| Canfyddiadau allweddol |
| --- |
| **Arweinyddiaeth a llywodraethu**<br>• Mae sylfeini cadarn ar waith i gefnogi'r dasg o gynnal busnes y Bwrdd a'r Pwyllgor yn effeithiol ac mae rhagor o waith ar y gweill.<br>• Canfyddiad bod diffyg cyfnod gweithredu cysgodol wedi effeithio ar gyflymder y cynnydd, ond bu cynnydd cynyddol mewn cyflymder yn ystod y trydydd chwarter (ac yn ystod y chwarter olaf mae'n debyg) eleni; heb unrhyw effaith andwyol amlwg hyd yma. Fodd bynnag, bydd angen adolygu hyn yn barhaus yng ngoleuni'r don COVID-19 bresennol.<br>• Ymrwymiad da i sicrhau tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd a'r Pwyllgorau drwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu a chyfryngau, gydag arweinyddiaeth weladwy yn amlwg yn ystod y pandemig.<br>• Mae'r papurau'n amserol ac mae'n ymddangos eu bod yn hawdd eu deall, yn briodol o ran hyd i raddau helaeth, gyda chrynodebau ac uchafbwyntiau. Mae ganddynt arddull fewnol weledol gref, sy'n dal i ddatblygu. Mae cyfleoedd i symleiddio papurau ymhellach (e.e. drwy gynnwys atodiadau a phapurau atodol cysylltiedig.) |

## Canfyddiadau allweddol

**Arweinyddiaeth a llywodraethu (parhad)**

- Bwrdd cymharol sefydlog, gyda chyfleoedd gwirioneddol i fanteisio ar brofiadau amrywiol Aelodau Annibynnol y sector cyhoeddus a masnachol ('y gorau o'r ddau fyd'). Mae'r swydd wag ddiweddar am Aelod Annibynnol yn gyfle i amrywio cyfansoddiad y Bwrdd ymhellach. Er enghraifft, dylid parhau i adolygu'r diffyg cyfrifydd cymwysedig ymhlith yr Aelodau Annibynnol.

- Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ymwybodol o drefniadau recriwtio, cadw ac athreuliad y Bwrdd, ac o bwysigrwydd cynnal rhagolygon a diwylliant newydd.

- Dangosodd sylwadau'r Pwyllgor Archwilio ac Asesu bwyllgor sy'n aeddfedu. Mae'n rhoi'r blociau adeiladu yn eu lle ac mae'n ymddangos bod ganddo bwyslais cryf ar faterion sy'n ymwneud â risg.

- Ymddengys hefyd fod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Amodau Gwasanaeth yn gweithredu yn ôl y bwriad.

## Canfyddiadau allweddol

**Arweinyddiaeth a llywodraethu (parhad)**

- Nodwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol newydd yn unigryw yng Nghymru (yr hyn sy'n cyfateb yn y Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd yw'r Pwyllgorau Ansawdd a Diogelwch). Dangosodd sylwadau'r Pwyllgor hwn fod datblygiad yn parhau o'r cyfnod sylfaen, a bod dull trefnus yn amlwg. Fodd bynnag, bydd yn hanfodol cynnal y momentwm gan fod yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd y Pwyllgor wedi symud ymlaen yn ddiweddar (cadarnhawyd Cadeirydd newydd y Pwyllgor yn ddiweddar.)

- Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ran bwysig i'w chwarae wrth arwain y system, yn enwedig o ran Rheoli Gwybodaeth a Seiberddiogelwch. O'r herwydd, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn adnodd ac yn bwynt cyngor gwerthfawr, yn fewnol ac i sefydliadau eraill. Fodd bynnag, mae eglurder ynghylch arweinyddiaeth ac atebolrwydd y ddau faes gweithredu allweddol hyn ymhlith holl bartneriaid Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn hanfodol i sicrhau ymateb cydgysylltiedig ac amserol.

- Tystiolaeth bod strwythur y pwyllgorau'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i oruchwylio swyddogaeth arwain system Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn enwedig o ran rheoli bygythiadau seiberddiogelwch a sicrhau y cyflawnir yr 'addewid data'.

- Mae systemau a phrosesau sicrwydd yn cael eu datblygu ac ymddengys eu bod yn rhesymol ac yn gymesur yn y cyd-destun y mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithredu ynddo. Ond mae'n rhy gynnar i lunio barn bendant ar sicrwydd canlyniadau.

| Canfyddiadau allweddol |
| --- |
| **Trefniadau cynllunio**<br><br>• Sylfeini cadarn yng Nghynllun Blynyddol 21/22. Mae'n arddangos yr arddull fewnol newydd, a'r weledigaeth a'r amcanion strategol. Mae'r 4 amcan cenedlaethol a'r un amcan sefydliadol a'r galluogwyr ategol wedi eu mynegi'n dda.<br><br>• Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn disgwyl darparu gronynogrwydd cynyddol a meysydd newydd ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig a Chynllun Blynyddol 22/23, ond mae angen gwneud rhagor o waith o ran datblygu strategaeth hirdymor ar gyfer y sefydliad a'r cydbwysedd cywir rhwng cysondeb cenedlaethol a hyblygrwydd lleol.<br><br>• Ar hyn o bryd, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ailddiffinio partneriaethau mewnol ac allanol fel Bwrdd newydd, gan sefydlu ei hun fel 'partner digidol dibynadwy'. Ceir tystiolaeth dda bod adnoddau ac egni'n cael eu neilltuo i feithrin cysylltiadau allanol ac i gasglu sylwadau a gwybodaeth, a bydd Cynllun Ymgysylltu Strategol yn mynd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr. Ond mae'n rhy gynnar i ganfod effaith ehangach.<br><br>• Mae angen i Iechyd a Gofal Digidol Cymru fod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau pwyslais ar 'ofal' yn ogystal ag 'iechyd'. |

| **Canfyddiadau allweddol** |
| --- |
| **Trefniadau ar gyfer rheoli adnoddau**<br><br>• Mae’r tîm arweinyddiaeth ariannol yn gryfder gweladwy a gwneir cynnydd da o ran sefydlu systemau a phrosesau newydd.<br><br>• Nodir ymateb ystwyth i wariant ar raglenni, ond mae angen cadw llygad ar y cyllid a godir o gronfeydd rhaglenni a’r defnydd o dendrau sengl.<br><br>• Mae’r sefydliad yn wynebu rhai heriau gweithlu. Mae recriwtio amserol, cadw staff, a chynllunio olyniaeth yn allweddol yng nghyd-destun galw cynyddol am sgiliau digidol a marchnad recriwtio hynod o gystadleuol.<br><br>• Mae cynllunio olyniaeth ar gyfer uwch-swyddogaethau arbenigol, gan gynnwys Rheoli Gwybodaeth, Datblygu Apiau a Seiber, yn bwysig - mae angen cynnwys hyn mewn prosesau cynllunio parhad busnes a’r gweithlu.<br><br>• Bydd angen i’r Cyfarwyddwr Pobl newydd weithredu agweddau allweddol ar y Strategaeth Ddrafft ar gyfer Pobl yn gyflym, gan adeiladu ar gynghreiriau strategol allweddol, gan gynnwys Athrofa Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI), er mwyn datblygu’r capasiti a’r gallu ymhellach. |

## Cyfleoedd ar gyfer arloesedd a gwelliant

- Mae'r pandemig wedi arwain at newid patrwm yn y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru eisoes yn dangos ei werth yn y maes hwn ac mae mewn sefyllfa dda i fod ar flaen y gad o ran arloesedd pellach drwy ddylunio a chreu ar y cyd.

- Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru gyfle i ymestyn ei frand fel 'partner digidol dibynadwy'; gan fanteisio ar ystod amrywiol o aelodau annibynnol profiadol o'r sectorau cyhoeddus a masnachol i ennyn syniadau newydd a dull arweinyddiaeth newydd.

- Gallai'r Bwrdd fanteisio ar y cyfleoedd i arwain arloesedd mewn meysydd newydd, er enghraifft:
  - cyfathrebu ac ymgysylltu;
  - galluogi iechyd a gofal yn ddigidol; ac
  - offer cefnogi penderfyniadau.

  Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn datblygu arddull fewnol unigryw ar gyfer adroddiadau a dogfennau sy'n hawdd eu deall a'u darllen. Gellid profi ac ymestyn hyn ymhellach, fel yr IOPR.

- Efallai y bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn dymuno ystyried cyfleoedd i wella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd ymhellach, gan gynnwys sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor ar gael ar ei wefan.

| **Cyfleoedd ar gyfer arloesedd a gwelliant** |
| --- |
| • Ceir arweinyddiaeth gadarnhaol gan y tîm ariannol ac mae systemau a phrosesau rheolaeth ariannol da ar waith i fonitro a rheoli'r cyflawniad o'i gymharu â'r amcanion ariannol. Nodwyd nad oes cyfrifydd cymwysedig ymhlith yr Aelodau Annibynnol ac er bod rheolwyr ariannol profiadol iawn, byddai'n ymddangos yn ddoeth parhau i adolygu hyn.<br>• Mae angen i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddatblygu gwaith ar strategaeth y sefydliad, er mwyn darparu mwy o eglurder ar ei weledigaeth a'i amcanion hirdymor, yn enwedig yng nghyd-destun cefnogi cyrff eraill i adfer yn sgil effaith y pandemig.<br>• Ar hyn o bryd, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ailddiffinio ei bartneriaethau allanol (fel Bwrdd newydd). Mae cyfle i gasglu a defnyddio data naratif yn systematig i gefnogi rhaglen ddylunio a darparu ar y cyd; cynyddu'r broses o greu gwerth a gwireddu manteision fel 'partner digidol dibynadwy' ac arweinydd y diwylliant digidol newydd yng Nghymru. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.